

Sbotolau ar Gymru: Rali GB

Mae rownd y Deyrnas Unedig o Bencampwriaethau Rali'r Byd (FIA¹), Rali Cymru GB, yn un o brif ddigwyddiadau blaenllaw'r wlad ac fe'i cynhaliwyd yng Nghymru ers 2002. Yn 2013 symudodd y digwyddiad yn gyfan gwbl i Ogledd Cymru a chyflwynwyd camau RallyFest, gan ei gwneud yn fwy deniadol i gynulleidfa ehangach.



Credyd: Chris Davies Photography



Yn 2016 gwelwyd Rali Cymru GB (WRGB) yn derbyn 'Gorchest Ragoriaeth' dan raglen gynaliadwyedd Sefydliad yr FIA. Bwriad WRGB yw bod y rownd WRC gyntaf i gyrraedd safon cynaladwyedd digwyddiadau ISO20121².

Gyda 174 o'r 190 milltir o ddigwyddiadau a chamau yn digwydd o fewn YGLIC, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hwn fel cyfle unigryw i arddangos golygfeydd Cymru i gynulleidfa fyd-eang o dros 60 miliwn. Wrth sôn am y rali, dywedodd Ben Taylor, Rheolwr Gyfarwyddwr, Dayinsure Rali Cymru GB:

“Y rali hon yw un o ddigwyddiadau mwyaf Cymru ac mae'n esgor ar fuddion o bron i £10m i'r economi leol. Mae coedwigoedd Cymru yn enwog am fod ymhlith y rhai gorau yn y byd, ond allen ni ddim gwneud unrhyw beth heb gefnogaeth a chydweithrediad pawb yn CNC.”

Yn 2014, denodd y WRGB 45,000 o ymwelwyr ychwanegol o'r tu allan i Gymru (mae ychwanegol yn golygu na fyddent wedi dod i Gymru ar y pryd pe na bai digwyddiad y Rali ganddynt i ymweld ag e), ynghyd â 55,000 o ymwelwyr eraill o Gymru ei hun neu ymwelwyr fyddai wedi ymweld â Chymru beth bynnag bryd hynny. Mae'r trefnwyr yn adrodd bod dros 2,000 o wirfoddolwyr hefyd wedi helpu yn ystod y cyfnod paratoi, cyfnodau'r rali ac adeg datgysylltu'r cyfleusterau.

Mae'r WRGB yn parhau i ddatblygu perthnasoedd â diwydiant deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch Cymru ac yn 2015, gyflwynodd ddigwyddiad STEM³ a gefnogwyd gan dros 40 o gwmnïau a'i dargedu at 1,300 o fyfyrwyr cyfnod allweddol³.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:



¹Fédération Internationale de l'Automobile (*International Automobile Federation*)

²ISO 20121 yn cynnig arweiniad ac arfer gorau i'ch helpu i reoli eich digwyddiad a rheoli ei effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

³ STEM *Science, Technology, Engineering and Maths*

⁴ CA3 yw'r 3 blynedd o addysg i ddisgyblion rhwng 11 a 14.